**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

**CYFARFOD O'R PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 23 TACHWEDD 2016 YN NHŶ HASTINGS (10:30 – 12:15)**

**Aelodau CFfDLC yn Bresennol:** Ceri Stradling (Cadeirydd), David Powell (Aelod), Theo Joloza (Aelod), Julie James (Aelod Annibynnol)

**Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru yn Bresennol:** Anthony Ford

**Cynrychiolydd Deloitte yn Bresennol:** Katherine Shafer

**Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Bresennol:** Lisa James

**Swyddogion CFfDLC yn Bresennol:** Steve Halsall (Prif Weithredwr), David Carr (Rheolwr Cyllid)

## 1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

1.1 Rhoddodd y Cadeirydd ymddiheuriadau ar ran Ian Howse (Deloitte), Anthony Barrett (Swyddfa Archwilio Cymru) a Matthew Redmond (CFfDLC).

## 2. Datganiadau o Fuddiant

2.1 Datganodd David Powell fuddiant yn yr arolwg o ffiniau tua'r môr ar gyfer prosiect y Morlyn Llanw, gan fod ei fab yn gweithio i'r cwmni a oedd ynghlwm â'r gwaith dylunio cychwynnol ar gyfer y prosiect. Nododd y Pwyllgor ddatganiad Mr Powell, ond roedd o'r farn nad oedd yn ofynnol iddo dynnu allan o unrhyw drafodaeth ynghylch yr arolwg o'r ffiniau tua'r môr.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2016.

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2016.

## 4. Materion yn Codi o'r Cyfarfod Blaenorol.

4.1 Nododd y Pwyllgor fod y mwyafrif o'r eitemau i weithredu arnynt a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol wedi'u cwblhau erbyn hyn neu yn rhai i ddelio â nhw nes ymlaen ar yr agenda.

4.2 Yr eithriad oedd y cam gweithredu y cytunwyd arno i Deloitte ymchwilio i'r posibiliadau am adolygiad allanol o drefniadau archwilio mewnol CFfDLC. Adroddodd Kath Shafer fod cynnydd wedi'i wneud gan Ian Howse a oedd wedi mynd at Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth i wneud trefniadau ar gyfer yr adolygiad allanol. Nodwyd y datblygiad hwn gan y Pwyllgor.

4.3 Rhoddodd Steve Halsall ddiweddariad i'r Pwyllgor ar y sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer gwaith arolygon etholiadol CFfDLC. Roedd y ddogfen Polisi ac Arfer ar gyfer yr arolygon wedi'i chwblhau a'i chyhoeddi, a'r prif gynghorau cyntaf i fod yn destun arolwg oedd Gwynedd, Ceredigion a Phowys. Roedd trefniadau wedi'u gwneud i gynnal cyfarfodydd cychwynnol gyda phob prif gyngor a chynghorau cymuned / tref ar ddechrau 2017. Roedd cyfarfodydd wedi'u trefnu hefyd gyda swyddogion CLlLC i drafod dechrau'r arolygon.

4.4 Dywedodd Mr Halsall ei bod yn bosibl hefyd y byddai CFfDLC yn cynnal arolwg o ffiniau tua'r môr Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ar gyfer prosiect y Morlyn Llanw. Nid oedd y math hwn o arolwg wedi'i gynnal erioed o'r blaen, ac roedd CFfDLC wrthi'n asesu'r risgiau posibl sydd ynghlwm er mwyn eu cynnwys yn y gofrestr risgiau corfforaethol. Roedd disgwyl y byddai'r arolwg yn cymryd oddeutu 1 flwyddyn.

## 5. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

5.1 Nododd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith a oedd wedi'i ddiwygio yn dilyn y cyfarfod blaenorol i adlewyrchu'r amseru newydd ar gyfer yr adroddiad archwilio allanol.

## 6. Archwilio Mewnol: Adroddiad Archwilio Canol-blwyddyn 2016-17

6.1 Adroddodd Kath Shafer fod y gwaith archwilio a gyflawnwyd ym mis Medi 2016 wedi cynnwys meysydd Diogelwch Gwybodaeth a Rheolaethau Cyffredinol TG. Nodwyd manylion canfyddiadau'r gwaith archwilio yn yr adroddiad a roddodd raddfa sicrwydd Cymedrol ar gyfer Diogelwch Gwybodaeth a Rheolaethau Cyffredinol TG. Gwnaeth yr adroddiad un argymhelliad blaenoriaeth ganolig a chwe argymhelliad blaenoriaeth isel, sef:

- bod y Comisiwn yn ceisio cael datganiad clir o gyfrifoldebau gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r gwasanaethau TG sy'n cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ar ran y Comisiwn, a sicrwydd gan Lywodraeth Cymru ynglŷn ag effeithiolrwydd y rheolaethau mewnol sydd ar waith mewn perthynas â'r gwasanaethau TG y mae'n eu darparu, er enghraifft, gwneud cais am i'r adroddiadau archwilio mewnol perthnasol gael eu rhannu gyda'r Comisiwn (Canolig);
- bod staff yn cael eu hysbysu na ddylent ddatgelu'r cod sy'n caniatáu mynediad i swyddfa'r Comisiwn i ymwelwyr. (Isel)
- bod mynediad i'r ffolder adnoddau dynol electronig yn gyfyngedig i'r aelodau staff hynny y mae'n ofynnol iddynt gael mynediad yn unig. (Isel)
- bod y fersiwn o'r polisi Rheoli Cofnodion ar gael i staff ar y fewnrwyd yn cael ei disodli â'r fersiwn ddiweddaraf. (Isel)
- bod y Comisiwn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch gwybodaeth. (Isel)
- bod proses fonitro ar gyfer yr Amserlen Gadw yn cael ei sefydlu a'i dilyn. (Isel) a
- bod y Comisiwn yn cael cytundeb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â darparu adeilad argyfwng. Os na wnaiff Llywodraeth Cymru ddarparu cytundeb ysgrifenedig, yna dylai'r Comisiwn ystyried pa opsiynau

adeilad argyfwng eraill sydd ar gael, a bod y Cynllun Parhad Busnes yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu nad oes cytundeb ysgrifenedig ar waith gyda Llywodraeth Cymru bellach. (Isel)

6.2 Roedd yr argymhelliad blaenoriaeth ganolig ynghylch cael datganiad o gyfrifoldebau gan Lywodraeth Cymru, ynghylch sicrwydd gwasanaethau TG, ynghylch effeithiolrwydd rheolaethau TG mewnol wedi'u gwrthod gan reolwyr CFfDLC ar y sail bod posibiliad sylweddol y byddai trefniadau TG CFfDLC yn newid yn y dyfodol agos. Er bod yr argymhelliad hwn wedi'i wrthod, roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'n ddoeth o hyd i'r CFfDLC gael unrhyw sicrwydd archwilio mewnol ar TG a allai fod gan Lywodraeth Cymru am weddill yr amser tra bod CFfDLC yn parhau'n rhan o'u system TG. **Cytunwyd** y dylai CFfDLC gysylltu â Phennaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru a gofyn am unrhyw adroddiadau neu sicrwyddau archwilio sydd ganddynt. **Cytunwyd** hefyd y byddai CFfDLC yn gwirio cyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru am unrhyw sicrwyddau ar reolaethau TG.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Rhagfyr 2016

6.3 O ran gweddill yr argymhellion, y derbyniwyd bob un ohonynt gan y rheolwyr, roedd dyddiadau terfyn amser wedi'u dynodi ar gyfer eu cwblhau. Nododd y Comisiwn o'r cynllun archwilio mewnol y byddai'r archwiliad diwedd-blwyddyn a oedd i'w gynnal yn Rhagfyr 2016 yn cwmpasu Refeniw a Symiau Derbyniadwy, Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg, a dilyniant ar argymhelliad y flwyddyn flaenorol.

## 7. Adolygiad o'r Ymarferiad Gwirio Asedau Sefydlog

7.1 Nododd y Pwyllgor ganlyniad ymarferiad gwirio asedau sefydlog blynyddol CFfDLC. Cyfrifwyd am yr holl asedau ac roedd yr unig faterion yn codi yn ymwneud â mân achosion o labelu asedau'n anghywir, ac roedd hynny wedi'i gywiro erbyn hyn.

## 8. Adolygiad o Holiadur Hunansicrhau y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

8.1 Adroddwyd bod yr holl faterion a oedd yn weddill yn deillio o ymarferiad y flwyddyn flaenorol wedi'u datrys erbyn hyn, a bod yr holiadur diwygiedig ar gyfer 2016-17 wedi'i gylchredeg i aelodau ei lenwi. Byddai canlyniad ymarferiad 2016-17 ac unrhyw faterion a nodwyd yn cael eu hystyried yng nghyfarfod mis Chwefror 2017.

## 9. Prawf ar y Cynllun Parhad Busnes 2016-17

9.1 Ystyriodd y Pwyllgor ganlyniad prawf Cynllun Parhad Busnes blynyddol CFfDLC a nodwyd bod y prawf wedi dynodi y gallai CFfDLC barhau i weithredu'n effeithiol pe bai amharu tymor byr i dymor canolig yn digwydd yn deillio o ddiffyg mynediad i adeilad CFfDLC a system TG y swyddfa. O ran y rhestr pwyntiau gweithredu yn deillio o'r prawf, roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid dwyn dyddiad y terfyn amser, sef 31 Mawrth, yn ei flaen ar gyfer rhoi trefniadau eraill ar waith i gael mynediad i

fancio ar-lein i'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr. **Cytunwyd** y dylid rhoi'r pwynt gweithredu hwn ar waith cyn gynted â phosibl.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 30 Tachwedd 2016

**10. Argymhellion Archwilio – Adroddiad Cynnydd.**

10.1 Ystyriodd y Pwyllgor y cynnydd ar argymhellion yr archwilwyr mewnol a oedd heb eu cyflawni eto. Nodwyd bod yr argymhellion heb eu cyflawni ar gyfer 2012-13 a 2014-15 yn ymwneud ag arolygon y Comisiwn ac felly nid oedd modd cyflwyno tystiolaeth ohonynt fel argymhellion wedi'u gweithredu hyd nes bod cryn waith wedi'i wneud mewn perthynas ag arolygon. Fodd bynnag, yng ngolau dechrau arolygon etholiadol ar ddechrau 2017, rhagwelwyd y byddai'r argymhellion hyn yn cael eu cadarnhau fel argymhellion wedi'u gweithredu maes o law.

10.2 Roedd un argymhelliad heb ei gyflawni ar gyfer 2015-16, sef y dylai CFfDLC ddiweddaru ei adolygiad o reoli perfformiad staff i ddangos yn glir sut oedd amcanion aelodau staff unigolyn yn cysylltu ag amcanion corfforaethol CFfDLC. Pennwyd y dyddiad terfyn 31 Mawrth 2017 i hyn yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror, ac roedd disgwyl y byddai'r argymhelliad yn cael ei weithredu pan fyddai'r Rheolwr Cymorth Busnes yn dychwelyd.

10.3 Roedd yr argymhellion cytûn newydd a ddeilliodd o archwilia canol-blwyddyn 2016-17 eisoes wedi cael ystyriaeth o dan eitem agenda 6, a nodwyd y dyddiadau terfyn amser ar gyfer eu gweithredu.

**11. Brexit – Goblygiadau a Risgiau**

11.1 Adroddwyd bod CFfDLC wedi rhoi ystyriaeth yn ddiweddar i'r goblygiadau a'r risgiau'n ymwneud â'r bleidlais ddiweddar i adael yr UE. Cynorthwywyd eu hystyriaethau gan gyfarfod a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru i drafod y mater hwn, ac yn ystod y cyfarfod cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i roi gwybodaeth i'r holl Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru am unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau i bolisi yn deillio o Brexit trwy gyfarfodydd chwe-misol ar gyfer Penaethiaid Adnoddau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor.

11.2 Roedd Lisa James o'r farn y gallai Brexit gael effaith ar randdeiliaid CFfDLC, yn enwedig y prif awdurdodau. Penderfynwyd y dylai CFfDLC fod yn ystyriol o hyn wrth ddelio â rhanddeiliaid.

**12. Adroddiad Rheoli Risg**

12.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r cofrestri risg presennol a'r polisi. Adroddwyd manylion y newidiadau a wnaed i'r cofrestri risg Corfforaethol a Gweithredol ers y cyfarfod Pwyllgor diwethaf. Nododd y Pwyllgor y sefyllfa bresennol mewn perthynas â threfniadau TG CFfDLC a'r cyfarfodydd parhaus gyda Chyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a'r drafft o'r achos busnes a'r adroddiad dichonoldeb. Amcangyfrifwyd y dylai trefniadau TG newydd fod ar waith erbyn diwedd 2017.

12.2 Adroddwyd bod risg gorfforaethol newydd yn ymwneud â CFfDLC yn cynnal arolwg o ffiniau tua'r môr ar gyfer prosiect Morlyn Llanw Abertawe, Castell-nedd Port Talbot i'w ddrafftio a'i gynnwys yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ym mis Rhagfyr.

12.3 Nodwyd bod y risg weithredol sy'n ymwneud ag yswiriant teithio i staff yn teithio ar fusnes swyddogol yn cael ei goddef ar hyn o bryd gan na ellid dod o hyd i ddarparwr yswiriant. Ystyriwyd y byddai'r risg hon yn cynyddu gan fod y gwaith ar arolygon etholiadol newydd yn cynnwys ymweliadau â safleoedd a theithio i swyddfeydd prif awdurdodau ar gyfer cyfarfodydd â swyddogion. Dywedodd Anthony Ford fod rhai o aelodau staff Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud cryn dipyn o deithio fel rhan o'u dyletswyddau, a chynigion gwneud ymholiadau yn Swyddfa Archwilio Cymru i ganfod pa drefniant yswiriant teithio oedd ar waith yno, os oedd un.
**Gweithredu**: Swyddfa Archwilio Cymru **Erbyn**: 22 Chwefror 2016

12.4 Roedd y Pwyllgor o'r farn mai'r Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a oedd yn fwyaf tebygol o fod angen yswiriant teithio fyddai Estyn, gan fod ei arolygwyr yn teithio gryn dipyn fel rhan o'u dyletswyddau. Cytunwyd y byddai ymholiadau'n cael eu gwneud gydag Estyn ynghylch a oeddent wedi cael yswiriant teithio i'w harolygwyr.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 30 Tachwedd 2016

12.5 Dywedodd Lisa James y byddai gofyniad CFfDLC am gyngor cyfreithiol yn cynyddu wrth i'r rhaglen waith arolygon etholiadol ddechrau. Nodwyd bod y trefniadau presennol ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol gydag Adran Gyfreithiol y Llywodraeth ar fin dod i ben, a bod CFfDLC wedi bod yn defnyddio fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn llwyddiannus hefyd yn ôl y galw. Adroddwyd bod papur ar opsiwn ar gyfer darparu gwasanaethau cyfreithiol i'w roi gerbron mewn cyfarfod o'r CFfDLC yn y dyfodol.

## 13. Adroddiad Monitro'r Gyllideb.

13.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion yr adroddiad ar y gyllideb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 25 Hydref 2016. Adroddwyd y byddai CFfDLC yn asesu'r tanwariant yn ei gyllideb ac yn cytuno ar swm i'w ildio yn ôl i Lywodraeth Cymru yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr. Byddai CFfDLC hefyd yn ystyried eu gofynion cyllideb ar gyfer 2017-18 yn yr un cyfarfod, ac roedd disgwyl y byddai costau pellach yn gysylltiedig â'r trefniadau TG newydd a'r arolwg o'r ffiniau tua'r môr. O ran y trefniadau TG newydd, dywedodd Lisa James y byddai angen i'r Is-adran Noddi wybod am unrhyw ofynion cyllid cyfalaf cyn gynted ag y bo modd. **Cytunwyd** y byddai CFfDLC yn pasio'r gofynion cyllid cyfalaf ar gyfer y system TG newydd i'r Is-adran Noddi cyn gynted ag y bônt ar gael.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Rhagfyr 2016

## 14. Rhoddion a Lletygarwch - Adroddiad a Datganiadau

14.1 Nododd y Pwyllgor na wnaed unrhyw ddatganiadau o roddion neu letygarwch ar gyfer 2016-17 hyd yma.

## 15. Cwynion

15.1 Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw gŵynion wedi’u derbyn ers yr adroddiad diwethaf.

## 16. Adroddiad Chwythu’r Chwiban a Thwyll

16.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o chwythu’r chwiban na thwyll ers yr adroddiad diwethaf.

## 17. Adroddiad Diogelwch Data TG

17.1 Adroddwyd y bu un digwyddiad yn ymwneud â diogelwch data ers yr adroddiad diwethaf. Roedd hyn wedi digwydd pan gafodd dogfen yn cynnwys manylion gwybodaeth cyswllt staff a fwriadwyd i’w dosbarthu’n fewnol, ei anfon drwy’r e-bost at sefydliad allanol mewn camgymeriad. Roedd y sefydliad allanol dan sylw yn brif gyngor, a bu modd lleoli a dileu’r wybodaeth gyfyngedig gyda chymorth swyddog diogelwch data TG y cyngor.

17.2 Adroddwyd am y digwyddiad i Lywodraeth Cymru, ac nid oedd disgwyl y byddai angen unrhyw gamau bellach. Roedd CFfDLC wedi cynhyrchu fersiwn olygedig o’r ddogfen bellach i’w rhoi i archwilwyr er mwyn gwella diogelwch y ddogfen.

## 18. Cadeirydd Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 24 Hydref 2016

18.1 Adroddwyd mai’r materion a ystyriwyd yn y cyfarfod oedd asesu effeithiolrwydd y pwyllgor archwilio ac adroddiadau blynyddol yn dilyn y newid fformat diweddar. Roedd y Pwyllgor o’r farn eu bod wedi adolygu a dangos eu heffeithiolrwydd trwy gynnwys manylion eu holl benderfyniadau a chynigion a wnaed ac a fabwysiadwyd gan CFfDLC yn Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Adroddwyd bod rhai Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru wedi mabwysiadu’r arfer o gynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar y cyd unwaith y flwyddyn i ystyried materion fel effeithiolrwydd a hyfforddiant, ac y gallai fod cyfle i CFfDLC fabwysiadu’r arfer hwn ar ôl sefydlu trefniadau TG ar y cyd gyda Chorff arall a Noddir gan Lywodraeth Cymru. **Cytunwyd** cynnig i CFfDLC eu bod yn ymchwilio i’r posibilrwydd hwn.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Rhagfyr 2017

18.2 Dull arall o asesu effeithiolrwydd y pwyllgor archwilio y tynnwyd sylw ato yn y cyfarfod oedd yr arfer o gymryd 10 munud ar ddiwedd bob cyfarfod o’r pwyllgor archwilio i gynnal trafodaeth ynglŷn â sut oedd y cyfarfod wedi mynd a pha mor effeithiol ydoedd ym marn yr aelodau. **Cytunwyd** y byddai’r Pwyllgor yn mabwysiadu’r arfer hwn gan ddechrau gyda’r cyfarfod presennol. Nodwyd nad oedd yn arfer gan CFfDLC ar hyn o bryd i gyhoeddi agendâu cyfarfodydd y

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar eu gwefan. **Cytunwyd** cynnig i CFfDLC eu bod yn ystyried mabwysiadu'r arfer o gyhoeddi agendâu cyfarfodydd y Pwyllgor.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Rhagfyr 2016

18.3 Roedd Cadeirydd cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi cynnwys asesiad anffurfiol gan Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau blynyddol Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Canlyniad yr asesiad hwn o adroddiad blynyddol CFfDLC oedd ei bod yn ymddangos fod diffyg dangosyddion perfformiad allweddol ynddo. Roedd y Pwyllgor o'r farn y bu'n anodd i CFfDLC i gynnwys dangosyddion perfformiad pan nad oedd unrhyw waith arolygon yn mynd rhagddo. Nodwyd bod CFfDLC wedi defnyddio amcanion y Gweinidog a bennwyd yn ei Lythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2016-17 fel mesur o'u perfformiad yn absenoldeb gwaith arolygon, ac roedd y Pwyllgor o'r farn fod hyn yn ddigonol. Holodd Lisa James p'un a oedd system adborth rhanddeiliaid gan CFfDLC, a chadarnhaodd Steve Halsall fod holiadur rhanddeiliaid yn cael ei ddefnyddio ar ddiwedd pob arolwg.

18.4 Nododd Cadeirydd y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fod gofyniad erbyn hyn i'r adroddiad blynyddol gynnwys adran Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio nad oedd y rhan fwyaf o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys CFfDLC, wedi cydymffurfio'n llawn ag ef. Cytunwyd y byddai CFfDLC yn gwirio gofynion yr adran hon ac yn ystyried p'u a oeddent yn berthnasol i'w cynnwys yn yr adroddiad blynyddol.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 22 Chwefror 2017

## 19. Unrhyw Fusnes Arall

19.1 Nododd y Cadeirydd fod Kath Shafer yn gadael Deloitte ac na fyddai'n mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg CFfDLC mwyach. Diolchwyd iddi ar ran y Pwyllgor am ei chymorth i'r Pwyllgor, a dymunodd yn dda iddi i'r dyfodol. Nododd y Pwyllgor y person y fydd yn cymryd ei lle, Michelle Hopton, yn mynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.

19.2 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pherfformiad ac effeithiolrwydd y Pwyllgor yn ystod y cyfarfod. Roedd consensws fod y cyfarfod wedi mynd yn dda ac y dangoswyd effeithiolrwydd drwy ymdrin yn dda â'r agenda, ansawdd papurau'r cyfarfod a'r trafodaethau a ysgogwyd, gydag awgrymiadau'n cael eu hystyried yn hwylus.

## 20. Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf

20.1 Nodwyd mai'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fyddai:

- 22 Chwefror 2017
- 26 Gorffennaf 2017.